OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 1333 (Cy. 304)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llangollen, Sir Ddinbych i Bentrefoelas, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad Cyflymder 40 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Rhagfyr 2017* |
| *Yn dod i rym* | *8 Ionawr 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Ionawr 2018 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llangollen, Sir Ddinbych i Bentrefoelas, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad Cyflymder 40 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2017.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**2.—**(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 8 Ionawr 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiad a Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 3 yn weithredol.

**Atal Dros Dro**

**5.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.—**(1) Ni fydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Rhagfyr 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

## <u>YR ATODLEN</u>

### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

1. Y darn o'r A5 yn Llangollen sy'n ymestyn o bwynt 288 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Cwmalis hyd at bwynt 202 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

2. Y darn o'r A5 yn Llangollen sy'n ymestyn o bwynt 450 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Maesmawr hyd at bwynt 59 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

3. Y darn o'r A5 yn Llangollen sy'n ymestyn o bwynt 246 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at Dref-y-nant hyd at

bwynt 243 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o’r gyffordd honno.

4. Y darn o’r A5 ger yr eiddo a elwir Gweithdy’r Original Butterfly Man yng Nglyndyfrdwy sy’n ymestyn o bwynt 208 o fetrau i’r gorllewin o ganolbwynt ffordd ymadael y gilfan ogleddol hyd at bwynt 178 o fetrau i’r dwyrain o’r ffordd ymadael honno.

5. Y darn o’r A5 ym Mhentrefoelas sy’n ymestyn o bwynt 43 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r A543 hyd at bwynt 284 o fetrau i’r dwyrain o’r gyffordd honno.